**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith

18 Gorffennaf 2022

Annwyl Llyr,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 1 Gorffennaf 2022 am ddatganiad deddfwriaethol 2022/2023 a Bil ar lywodraethu amgylcheddol.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn rhoi'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd ein holl waith. Fel yr amlinellwyd yn ystod fy natganiad deddfwriaethol ar 5 Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno nifer o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth dros y flwyddyn i ddod gyda'r nod o greu Cymru wyrddach. Mae'r rhain yn cynnwys Bil a fydd yn gosod gwaharddiad neu gyfyngiadau ar werthu rhai o'r plastigau untro mwyaf cyffredin yng Nghymru; Bil aer glân; Bil amaethyddiaeth i ddiwygio'r ffordd y caiff ein cymunedau ffermio eu cefnogi yn y dyfodol; a Bil ar ddiogelwch tomenni glo.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynnal safonau amgylcheddol yr UE. Mae gweithio tuag at sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol yn rhan o'n Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ac rydym wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ar y mater pwysig hwn yn ystod tymor y Senedd. Yn y cyfamser, bydd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) yn parhau â'i gwaith gwerthfawr hyd nes y cyflwynir deddfwriaeth i greu corff parhaol.

Ers ei ffurfio, mae'r IEPAW wedi bod yn adolygu ac yn gwella ei brosesau'n gyson er mwyn cryfhau'r trefniadau interim. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno proses newydd ar gyfer cyflwyniadau cwmpasu, datblygu egwyddorion blaenoriaethu, cyhoeddi ffurflen i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei derbyn ar y dechrau, a chreu ffeithlun sy'n nodi'r gwahanol reoleiddwyr amgylcheddol sy'n gweithredu yng Nghymru. Er bod y trefniadau interim hyn ar waith, bydd IEPAW a Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried beth arall y gellir ei wneud i wella eu heffeithiolrwydd ac i sicrhau bod gan yr Asesydd Interim yr adnoddau sydd eu hangen arni i gyflawni ei rôl.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.